CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
5 Mehefin 2019, CANOLFAN PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL: Cyng D I Roberts, E Williams, N Jones, D Gwyn, A Mummery, S Hughes, M Jones (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng O Evans, R Williams (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts. Ar ran y Cyngor, cydymdeimlodd y Cadeirydd â'r Cynghorydd S Hughes yn dilyn ei brofedigaeth
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 01.05.19. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng E Williams yn cynnig a Cyng N Jones yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Datblygu'r maes chwarae** - Cytunwyd i edrych am arian grant i ddatblygu'r cae chwarae ac i ddarparu bin
4.2	**Lon Bryn Ffynnon** - Darllenwyd ymated gan Dafydd Rowlands Adran Tai " Cyfeiriaf at ein cyfarfod diweddar ar safle ym Mryn Ffynnon.Ymhellach, hoffwn gadarnhau fy mod wedi cyfarfod hefo swyddogion Priffyrdd i drafod ymgymryd â gwelliannau i'r mynediad. Fel y trafodwyd ar y diwrnod rwyf hefyd wedi trafod costau gwelliannau i'r mynediad a'r maes parcio. Yn fras, byddai gwneud gwaith i'r lon fynedfa yn unig yn golygu gwario oddeutu £3K. Byddai tarmacio'r lon fynediad a'r maes parcio yn costio oddeutu £14k. O safbwynt y Gwasanaeth Tai, rydym yn ffafrio cymeradwyo'r cynllun mawr ar y sail bydd Priffyrdd yn hapus i gymryd cyfrifoldeb h.y. mabwysiadu'r ardal ar ôl cwblhau'r gwaith. Wedi ystyried y mater ymhellach, rwyf o'r farn bod trigolion lleol wedi defnyddio'r maes parcio anffurfiol am gymaint o amser mae hawliau cyfreithiol bellach wedi eu sefydlu. Yn sicr, mae yna beryg o hawliad yn erbyn y Cyngor os byddai aelod o'r cyhoedd yn cael damwain ar y tir anwastad. Byddwn yn ddiolchgar derbyn eich sylwadau ar y cynnig uchod cyn i mi baratoi cyfarwyddiadau i'r Gwasanaeth Priffyrdd" Bydd y Clerc yn ymateb yn dweud bod y Cyngor yn derbyn y cynnig
4.3	**BDO Archwilwyr Allanol.** Disgwyl ymateb gan Swyddfa Archwilio Cymru.
4.4	**Llwybr troad Bryngof** - Mae Cyng D Gwyn wedi cerdded y llwybr ac yn cadarnhau bod y llwybr yn glir
	Llofnod **Cadeirydd** **03.07.19**

4.5	**Bws yn parcio wrth ymyl troad Pentre Berw** - Mae'r Clerc wedi derbyn gohebiaeth gan y Cyngor Sir yn gofyn pwy sy'n berchen ar y bws. Bydd yn ymateb gan ddatgan ei fod yn perthyn i O R Jones, Llanfaethlu
4.6	**Sedd wâg** - Nid yw y Clerc wedi derbyn ceisiadau
4.7	**Torri coed Penmynydd (Scottish Power)** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb
4.8	**Camerau cylch-cyfyng ar yr A55** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MôN**
	Tai
5.1	Lon Bryn Ffynnon - gweler 4.2
	Cynllunio
5.2	HHP/2018/41 Tyn y Felin, Lon Penmynydd - dim ardal Cyngor Penmynydd
5.3	RM/2019/2 Curlew Cottage, Penhesgyn - dim sylwadau
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Llogi Canolfan Penmynydd - Gohebiaeth gan y Ffermwyr Ifanc yn cadarnhau na fyddant yn rhentu'r canolfan y tymor hwn
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Adroddiad yr archwilydd mewnol. Derbyniwyd adroddiad yr archwilydd
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Y Ganolfan - Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Open Reach i ofyn beth yw eu cynlluniau ynglŷn â broadband ym Mhenmynydd oherwydd ei fod mor wael yn y Ganolfan. Dywedodd y Cadeirydd bod grantiau ar gyfer broadband ar gael i ardaloedd gwledig.
9	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Gwasanaeth Bws Penmynydd
9.2	Lamp wrth ymyl y tai cyngor angen bulb newydd
	Llofnod **Cadeirydd** **03.07.19**